

CYLCH MEITHRIN

POLISI DELWEDDAU DIGIDOL

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael. Os oes unrhyw amwysedd am eiriad y polisi, y fersiwn Gymraeg sy'n gywir bob tro.

Bydd **Cylch Meithrin** Llanrhaeadr Ym Mochnant yn dilyn y polisi hwn a'i addasu yn ôl yr angen a'i adolygu yn flynyddol.

Bydd **arweinydd Cylch Meithrin** Llanrhaeadr Ym Mochnant yn sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y polisi hwn.

Bydd **Cylch Meithrin** Llanrhaeadr Ym Mochnant yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y polisi hwn trwy gymryd y camau canlynol:

(Nodwch sut byddwch yn rhannu'r wybodaeth yma. e.e. Rhoi'r polisi ar wefan y cylch; rhoi'r polisi mewn llawlyfr i rieni; rhoi copi o'r polisi mewn cyntedd neu fan ble gall pobl ei weld; tynnu sylw rhieni a gofalwyr at bolisi mewn nosweithiau / boreau i rieni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.)

- 1 Ar gael mewn ffeil wrth ein hysbysfwrdd yn y Cylch.
- 2 Wedi ei nodi yn ein Datgan o Ddiben sydd yn cael eu rhannu efo rhieni cyn i'r plentyn cychwyn yn y Cylch
- 3 Gwybodaeth ar ein grwp Facebook i nodi bod pob Polisi ar gael yn y Cylch

ADOLYGWYD GAN

DYDDIAD

(Enw)

(Llofnod)

(Pryd)

(Awgrymir eich bod yn adolygu eich polisi yn flynyddol a hysbysu AGC, lle bo hynny'n briodol, os ydych wedi gwneud newidiadau iddo.)

CYLCH MEITHRIN

DIGITAL IMAGES POLICY

A Welsh language version of this policy is available. If there is any ambivalence about the wording of the policy, the Welsh language version is always the correct copy.

Cylch Meithrin Llanrhaeadr Ym Mochnant follows this policy, reviews it annually and updates it as required.

The **leader** of **Cylch Meithrin** Llanrhaeadr Ym Mochnant will ensure that every member of staff understands this policy.

Cylch Meithrin Llanrhaeadr Ym Mochnant will ensure that parents and carers are aware of this policy by taking the following steps:

(Note how you will share this information. E.g. Policy will be placed on the cylch meithrin website; Policy to be given in a handbook to parents / carers; place policy in the entrance or where people are able to view it; draw the attention of parents and carers to the policy during parents evenings / mornings. This list is not exhaustive.)

- 1 Available in a folder next to our notice board in Cylch.
- 2 Noted in our Statement of Purpose, that is shared with parents before their child starts in the Cylch
- 3 Noted on our Facebook group to indicate that all Policies are available in the Cylch

REVIEWED BY

DATE

(_____ Name) (_____ Signature) (Date)

(It is suggested that you review your policy annually and notify CIW, where appropriate, of any changes you make.)

POLISI DELWEDDAU DIGIDOL

(Lluniau a Fideos)

Nod

Mae'r Cylch Meithrin yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac amddiffyn y plant sydd dan ei ofal, ac mae hyn yn cynnwys osgoi unrhyw gamddefnydd o ddelweddau ohonynt. Fodd bynnag, mae'r Cylch Meithrin yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng pwysigrwydd amddiffyn y plant sy'n eu gofal rhag camddefnydd o ddelweddau ohonynt, a'r angen i roi sylw a chyhoeddusrwydd i waith a gweithgareddau'r Cylch Meithrin.

Mae datblygiadau ym maes technolegau delweddau digidol (*digital imaging technologies*) yn cynnig cyfleoedd newydd i gefnogi addysg a datblygiad cynnar plant, yn ogystal a chyfleoedd i hyrwyddo gwaith y lleoliad.

Bydd yr Arweinydd yn esbonio yn glir i rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid pa ddefnydd a wneir o'r delweddau, a bydd yn goruchwyllo'n fanwl unrhyw broses o greu delweddau a wneir gan unigolyn o du allan i'r lleoliad e.e. ffotograffydd y papur newydd lleol.

Hawliau Plant

Mae'r Polisi Delweddau Digidol hwn yn rhan o sicrhau bod y Cylch Meithrin yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

Erthygl 16: Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

Cod Ymarfer

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid cyn y gellir tynnu llun o'u plentyn/plant at ddefnydd y Cylch Meithrin, e.e. at ddefnydd arolwg Estyn, arddangosfeydd o fewn y Cylch Meithrin, cofnod datblygiad y plentyn, gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen, arolwg ansawdd, rhannu arfer da.
- sicrhau bod y caniatâd ysgrifenedig yn cael ei dderbyn ar ddechrau cyfnod plentyn yn y lleoliad.
- adnewyddu'r caniatâd ysgrifenedig yn rheolaidd e.e. ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.
- sicrhau caniatâd ysgrifenedig penodol gan rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid cyn defnyddio lluniau o'u plentyn/plant ar wefan neu ar dudalennau rhwydweithio cymdeithasol y lleoliad.

DIGITAL IMAGES POLICY

(Pictures and Videos)

Aim

The Cylch Meithrin's priority is to safeguard and protect children in their care, this includes avoiding any misuse of their images. However, the Cylch Meithrin seeks to maintain a balance between the importance of protecting the children in their care from any misuse of their images and the need to draw attention to and publicise the activities and work of the Cylch Meithrin.

Developments in the digital imaging technologies field offer new opportunities to support the children's education and early development, as well as the opportunities to promote the location's work.

The Leader will clearly explain to the parents/carers/guardians in what way the images will be used and will carefully oversee any images created by any individual from outside the location e.g. the photographer from the local paper.

The Rights of the Child

At the Cylch Meithrin, this Digital Images Policy is an essential part of respecting the Rights of the Child as stated in the United Nations Convention on the Rights of the Child, specifically:

Article 16: Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

Code of Practice

The Cylch Meithrin will:

- ensure that parents/ carers/ guardians give written consent before taking a picture of their child/children for the Cylch Meithrin's use e.g. for use at Estyn inspection, displays at the Cylch Meithrin, the child's development record, the Foundation Phase's activities, quality and standards inspection, sharing good practice.
- ensure that written consent is received at the beginning of the child's time at the location.
- renew the written consent regularly e.g. at the beginning of the school year.
- ensure there is specific written consent from the parents/carers/guardians before using images of the child/children on websites or on any of the location's social media pages.

- sicrhau peidio defnyddio enwau'r plant yn gysylltiedig ag unrhyw ddelwedd sydd yn cael ei ddefnyddio ar wefan neu ar dudalennau rhwydweithio cymdeithasol y lleoliad.
- sicrhau caniatâd ysgrifenedig penodol ar wahân ar gyfer unrhyw achlysur ychwanegol lle bydd delweddau o'r plant yn cael eu defnyddio yn allanol e.e. ar ddeunyddiau marchnata Mudiad Meithrin, yn y papur newydd lleol, ar raglen deledu.
- galluogi staff a gwirfoddolwyr i greu a chasglu delweddau digidol (lluniau a/neu fideos) i gefnogi amcanion addysgiadol y lleoliad e.e. gan ddarparu camera digidol, tabled i'w ddefnyddio yn y lleoliad.
- sicrhau y defnyddir offer y lleoliad yn unig ar gyfer creu a chasglu'r delweddau digidol. Ni ddylai staff na gwirfoddolwyr defnyddio offer personol i wneud hyn.
- cydymffurfio ag anghenion y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (RhGDC) (*General Data Protection Regulation, GDPR*) wrth greu a chadw unrhyw ddelweddau.
- cadw'r delweddau dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol, ac am ddim mwy na **XX mis/blwyddyn**.
- sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o gynnwys y polisi hon fel rhan o'r rhaglen anwytho.
- rhannu egwyddorion y polisi gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

Pan fydd unrhyw achos o dynnu lluniau'r plant yn digwydd, bydd y person sy'n tynnu'r lluniau yn ymrwmo i'r amodau isod:

- Ni ddylid enwi'r plant yn y lluniau.
- Ni chaniateir tynnu lluniau / creu fideo o blant mewn gwisgoedd anaddas.
- Dylid defnyddio'r delweddau at y pwrpas y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer yn unig.
- Ni ddylai unrhyw aelod o staff na gwirfoddolwr o dan unrhyw amgylchiadau creu delwedd o blant neu blentyn ar ei ddyfais (e.e. camera, ffôn, tabled) personol.
- Dim ond offer y lleoliad y caniateir i'w ddefnyddio i greu delweddau.
- Dim ond yr Arweinydd yn y lleoliad sydd a'r hawl i awdurdodi dyblygu lluniau ar gyfer gweithgareddau'r lleoliad.

Nid yw'r Cylch Meithrin yn annog rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid nac aelodau o'r cyhoedd i greu delweddau o'r plant tra'u bod yng ngofal y lleoliad (e.e. ar drip i'r parc). Fodd bynnag, yn dilyn arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (*Information Commissioner's Office*), nid yw'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (RhGDC) yn gwahardd rhieni/gofalwyr gwarcheidwaid rhag creu delweddau o'u plant/plentyn mewn gweithgareddau'r Cylch Meithrin.

- ensure that no children are named in any image which is used on the setting's website or its social media pages.
- ensuring that a separate specified written consent for any additional occasion where images of the children are to be used externally e.g. on Mudiad Meithrin's marketing materials, in the local paper, on a television show.
- enable staff and volunteers to create and collect digital images (pictures and/or videos) to support the location's educational objectives e.g. by providing the location with a digital camera or tablet.
- ensure that only the location's equipment is used to produce and collect digital images. Staff and volunteers should not use their personal equipment for this use.
- comply with the requirements of the General Data Protection Regulation (GDPR) when creating or storing images.
- only keep the images for the necessary time, and no longer than **XX months/ years**.
- ensure that staff and volunteers are aware of this policy's content as part of their induction programme.
- share the policy's principles with parents/ carers/ guardians.

When any cases of taking the children's pictures arise, the person taking the pictures will recognize the following conditions:

- Children should not be named in the pictures.
- It is not permitted to take pictures/videos of children in unsuitable clothing.
- Images should only be used for the purpose for which consent has been given.
- Under no circumstance should staff or volunteers create any images of the child or children on their personal equipment (e.g. camera, phone, tablet).
- Only the location's equipment should be used to create images.
- The Leader at the setting is the only individual who may give permission to authorise duplicating the pictures for the location's activities.

The Cylch Meithrin does not encourage parents/carers/guardians or members of the public to create images of the children whilst in the location's care (e.g. on a trip to the park). However, following guidance by the Information Commissioner's Office, the GDPR does not prohibit parents/carers/guardians from creating images of their own child/children in the Cylch Meithrin's activities.

Er mwyn parchu hawl yr unigolyn i breifatrwydd¹, ac er mwyn sicrhau diogelwch y plant:

- Rhaid pwysleisio i rieni mai at eu defnydd personol yn unig y caniateir tynnu lluniau neu greu fideo yn ystod gweithgareddau'r lleoliad (e.e. cyngerdd Nadolig, diwrnod mabolgampau).
- Ble nid dim ond plant/plentyn y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sydd yn y ddelwedd, rhaid ymrwymo i beidio â rhannu'r delweddau hyn yn gyhoeddus ar unrhyw wefannau (e.e. blog personol) neu dudalennau rhwydweithio cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram).
- Ni ddylai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid gwneud sylwadau ar unrhyw ddelweddau sydd yn cael eu rhannu gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid eraill.

Polisiau Cysylltiedig

Polisi E-Ddiogelwch

Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data

Polisi Canmol a Chwyno

Polisi Diogelu Plant

Cysylltiadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol

Awgrymir cyfeirio at y cyhoeddiadau a'r gwefannau isod am fwy o wybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 'Taking Photographs in Schools':

https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1136/taking_photos.pdf

Dogfen Briffio Iechyd a Diogelwch yr NUT 'Photographic Policies':

<https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/p/photographic-policies>

Cwestiynau Cyffredinol UCAC 'Rwy'n gyfrifol am ddiweddarau'r wefan, ac yn poeni am faint o wybodaeth alla i roi am ddisgyblion unigol, ac am reolau data a hawlfraint. Oes unrhyw gyngor syml gennych i ysgolion a cholegau addysg bellach?':

https://www.ucac.cymru/images/CwestiynauCyffredin/1_Diweddarau%20gwefan%20ysgol.pdf

Y Swyddfa Gartref 'Indecent images of children: guidelines for young people' <https://www.gov.uk/government/publications/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people>

Canllawiau'r Crown Prosecution Service 'Indecent Images of Children (IIOC)'

http://www.cps.gov.uk/legal/h_to_k/indecent_images_of_children/

¹ Hawliau Plant Cymru, Erthygl 16: Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

To respect the individual's right to privacy², and to ensure the children's safety:

- It must be emphasised to parents that taking pictures or making videos during the setting's activities (e.g. Christmas concert, sports day) is for their own personal use only.
- Where it is not only the parents/carers/guardians own child/children in the image, parents must agree not to share the images publicly on any website (e.g. personal blog) or any social media pages (e.g. Facebook, Instagram).
- Parents/carers/guardians should not comment on any images shared by other parents/carers/guardians.

Associated Policies

E-Safety Policy

Confidentiality and Data Protection Policy

Compliments and Complaints Policy

Child Safeguarding Policy

Useful Contacts and Information

The following websites and publications provide useful further information:

Information Commissioners Office 'Taking Photographs in Schools':

https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1136/taking_photos.pdf

The NUT's 'Photographic Policies' Health and Safety briefing document:

<https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/p/photographic-policies>

The Home Office 'Indecent images of children: guidelines for young people'

<https://www.gov.uk/government/publications/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people>

Crown Prosecution Service Guidelines 'Indecent Images of Children (IIOC)'

http://www.cps.gov.uk/legal/h_to_k/indecent_images_of_children/

²The Rights of the Child, Article 16: Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

CYLCH MEITHRIN

FFURFLEN CANIATÂD CREU DELWEDDAU DIGIDOL (lluniau a chlipiau fideo) YN Y CYLCH MEITHRIN

Mae gan ddelweddau digidol (lluniau a chlipiau fideo) rôl bwysig wrth gynllunio a chofnodi gweithgareddau'r Cylch Meithrin. Mae staff, gwirfoddolwyr a phlant **Cylch Meithrin** _____ yn creu delweddau digidol i gofnodi enghreifftiau o weithgareddau'r **Cylch Meithrin**.

Bydd pwyllgor/rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr **Cylch Meithrin** _____ yn cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Cyfrinachedd a'r Polisi E-Ddiogelwch er mwyn diogelu'r wybodaeth hon. Mae modd cael copïau llawn o'r polisiau hyn gan yr arweinydd.

Fe fydd y Cylch yn adnewyddu'r ffurflen caniatâd yn flynyddol ym mis Medi. Dim ond am **XX mis/blwyddyn** wedi eu creu y cedwir neu defnyddir unrhyw ddelweddau digidol.

Rhoddaf ganiatâd i staff a gwirfoddolwyr **Cylch Meithrin** _____ creu delweddau digidol o fy mhlentyn at y pwrpas(au) canlynol:

Pwrpas	Llofnod	Dyddiad
Cofnodi datblygiad fy mhlentyn (e.e. proffil datblygiad / llyfr lloffion).		
Cofnodi enghreifftiau o weithgareddau (e.e. gweithgareddau, gwibdeithiau, ymweliadau) ar gyfer cofnod o raglen gweithgareddau'r Cylch Meithrin ar gyfer murluniau / arddangosfeydd yn y lleoliad.		
Ni fydd enw'r plentyn yn ymddangos gyda'r delwedd yn yr achosion isod:		
Cofnodi enghreifftiau o weithgareddau (e.e. gweithgareddau, gwibdeithiau, ymweliadau) ar gyfer cofnod o raglen gweithgareddau'r Cylch Meithrin a'u rhannu gydag asiantaethau eraill (e.e. Estyn, AGC, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin – Cynllun Achredu Ansawdd).		
I'w ddefnyddio i gofnodi enghreifftiau o arfer da, a'u rhannu gydag asiantaethau eraill (e.e. Estyn, Awdurdod Addysg, Llywodraeth Cymru, Academi Mudiad Meithrin).		
I'w ddefnyddio i farchnata gwasanaeth y Cylch Meithrin ar wefan [rhestrwch bob un sy'n berthnasol i'r lleoliad: e.e y lleoliad / Mudiad Meithrin].		
I'w ddefnyddio i hyrwyddo gwasanaeth y Cylch Meithrin ar dudalennau rhwydweithio cymdeithasol y lleoliad [rhestrwch bob un sy'n berthnasol i'r lleoliad: e.e. Facebook / Twitter / Snapchat / Instagram / Pinterest].		

CYLCH MEITHRIN

DIGITISED IMAGES CONSENT FORM (pictures and video clips) FOR THE CYLCH MEITHRIN

Digitised images (pictures and video clips) have an important role in planning and recording the Cylch Meithrin's activities. **Cylch Meithrin** _____'s staff, volunteers and children create digital images to record examples of the Cylch Meithrin's activities.

To ensure safeguarding, **Cylch Meithrin** _____'s committee/ managers, staff and volunteers will comply with the Data Protection Policy, Confidentiality Policy and E-Security Policy to protect this information. Copies of these policies are available from the leader.

Every September, the Cylch Meithrin will review the consent form. The digitised images will only be kept for **XX months/years** after being produced.

I give my consent for staff and volunteers of **Cylch Meithrin** _____ to create digitised images of my child for the following purposes:

Purpose	Signature	Date
Record my child's development (e.g. development profile / scrapbook)		
Record examples of activities (e.g. activities, trips, visits) for murals / displays at the Cylch Meithrin.		
The child's name will not appear with the images in the following cases:		
Record examples of activities (e.g. activities, jaunts, visits) for the Cylch Meithrin's records to be shared with other agencies (e.g. Estyn, CIW, Flying Start, Mudiad Meithrin's quality accreditation scheme).		
Record examples of good practice, and share them with other agencies (e.g. Estyn, Education Authority, Welsh Government, Academi Mudiad Meithrin).		
To be used for marketing the Cylch Meithrin's services on websites including [name the ones relevant to the setting e.g. the setting / Mudiad Meithrin].		
To be used for marketing the Cylch Meithrin's services on websites including [name the ones relevant to the setting : e.g. Facebook/ Twitter/ Snapchat/ Instagram/ Pintrest].		

Rhoddaf / Ni roddaf ganiatâd i staff **Cylch Meithrin** _____ greu delweddau digidol o fy mhlentyn tra yn y cylch at y pwrpasau a nodwyd uchod.

Enw plentyn	
Enw rhiant/gofalwr/gwarcheidwaid	
Llofnod rhiant/gofalwr/gwarcheidwaid	
Dyddiad	

Yn dilyn arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Information Commissioner's Office), nid yw Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol(RhGDC) (*General Data Protection Regulation, GDPR*) yn gwahardd rhieni/gofalwyr gwarcheidwaid rhag greu delweddau o'u plant/plentyn mewn gweithgareddau'r Cylch Meithrin. Fodd bynnag, er mwyn parchu hawl unigolion i breifatrwydd, ac er mwyn sicrhau diogelwch y plant:

- At ddefnydd personol yn unig y caniateir tynnu lluniau neu greu fideo yn ystod gweithgareddau'r lleoliad (e.e. cyngerdd Nadolig, diwrnod mabolgampau).
- Ble nid dim ond plant/plentyn y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sydd yn y ddelwedd, rhaid ymrwymo i beidio â rhannu'r delweddau hyn yn gyhoeddus ar unrhyw wefannau (e.e. blog personol) neu dudalennau rhwydweithio cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram).
- Ni ddylai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid gwneud sylwadau ar unrhyw ddelweddau sydd yn cael eu rhannu gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid eraill.

Os rydwyf yn greu delweddau digidol (lluniau neu glipliau fideo) mewn gweithgaredd cylch, ble nid dim ond fy mhlentyn i sydd yn y ddelwedd, cytunaf i ymrwymo i'r canllawiau uchod ar ddefnydd y delweddau.

Enw rhiant/gofalwr/gwarcheidwaid	
Llofnod rhiant/gofalwr/gwarcheidwaid	
Dyddiad	

I give / I do not give my permission for **Cylch Meithrin** _____ to produce digitalised images of my child whilst at the Cylch Meithrin for the purposes listed above.

Child's name	
Parent/ Carer/ Guardian's name	
Parent/ Carer/ Guardian's signature	
Date	

Following guidance from the Information Commissioner's Office, the General Data Protection Regulation (GDPR) does not prohibit parents/carers/guardians from producing images of their children/child whilst participating in Cylch Meithrin activities. However, in order to respect to the individual's right to privacy, and to ensure the children's protection:

- Any consent to take photos or videos during the setting's activities (e.g. Christmas concert, sports day) is solely for personal use.
- When it is not only the parent/carer/guardian's own child/children who are in the images, you agree not to publicly share the image on any website (e.g. personal blog) or any social network pages (e.g. Facebook, Instagram).
- Parents/Carers/Guardians should not comment on images shared by other parents/ carers/ guardians.

If I create a digitalised image (photos or videos) in a Cylch Meithrin activity where it is not only my child in the image, I agree to adhere to the guidance listed above for the image's use.

Parent/ Carer/ Guardian's name	
Parent/ Carer/ Guardian's signature	
Date	